

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau Siarter Cwsmeriaid a Safonau Gwasanaeth

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i gyflawni amgylchedd cynaliadwy ar gyfer preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr Conwy. Mae gan Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau rôl bwysig i'w chwarae mewn perthynas â hyn.

Mae'r ddogfen Safonau Gwasanaeth yn sôn am y gwasanaeth y gallwch ei ddisgwyl gennym ni a beth ydym yn gofyn i chi ei wneud.

This document is also
available in English.



Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau

Gwerthoedd yr adran AFfCh

Mae ein gwaith dyddiol yn cyd-fynd â chynllun corfforaethol y Cyngor.

Ein Gweledigaeth

Conwy – Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd

Ein Gwerthoedd



Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith



Rydym yn deg â phawb



Rydym yn arloesol



Rydym yn gweithio fel tîm

Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol rydym yn gweithio tuag atynt:



Diogelwch - Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel



Iechyd - Mae pobl yn iach ac yn egnïol



Yr Amgylchedd - Mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd

Mae arnom ni eisiau sicrhau:

- fod ein cwsmeriaid yn derbyn gwasanaethau o ansawdd uchel a gwerth am arian
- bod pobl yng Nghonwy yn lleihau eu hól troed ecolegol
- ein bod yn darparu amgylchedd diogel, glân a deniadol i'n trigolion, busnesau ac ymwelwyr

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- ofalu am drigolion a'n hamgylchedd naturiol
- gwrandao, rhoi gwybod a chynghori
- bod yn onest, cyfeillgar, parchus a chymwynasgar
- chwilio am atebion
- darparu gwasanaethau'n deg
- annog aelodau o'r cyhoedd a budd-ddeiliaid i gymryd rhan a gweithio gyda ni





Gwasanaethau AFfCh

Y gwasanaethau rydym yn eu darparu:

- [Rhandiroedd](#)
- [Gwasanaethau Profedigaeth](#)
- [Pontydd a waliau cynnal](#)
- [Rheoli'r arfordir, perygl llifogydd a draenio tir](#)
- [Tramffordd y Gogarth](#)
- [Mannau Gwyrdd](#)
- [Porthladdoedd a'r Arfordir](#)
- [Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol](#)
- [Parcio](#)

- [Toiledau Cyhoeddus](#)
- [Cludiant Cyhoeddus](#)
- [Gwasanaethau ailgylchu a gwastraff - masnachol](#)
- [Gwasanaethau ailgylchu a gwastraff – y cartref](#)
- [Ffyrdd a Llwybrau Troed](#)
- [Glanhau Strydoedd Goleuadau Stryd](#)
- [Gwaith Stryd](#)
- [Traffig a diogelwch ar y ffyrdd](#)

Cysylltwch â ni

e: erf@conwy.gov.uk

ff: 01492 575337

Siarter Cwsmeriaid

Ein hymrwymiad i chi

Byddwn yn:

- ymdrin â chi gyda chwarteisi a pharch
- bod yn deg ac yn gymwynasgar
- darparu gwybodaeth hawdd i'w deall ar ein gwefan, wedi'i hargraffu ac yn bersonol
- ceisio cael pethau'n iawn y tro cyntaf
- gwrando ar eich ymholiadau a'ch pryderon a rhoi gwybod i chi pa mor sydyn y gallwn ni ymdrin â nhw
- parchu eich cyfrinachedd a rhoi gwybod i chi ymlaen llaw os yw'r wybodaeth rydych yn ei rhannu gyda ni yn cael ei defnyddio at ddibenion eraill
- ymdrin â'ch sylwadau, awgrymiadau a chwynion mewn modd cadarnhaol a chyfrifol

Cysylltwch â ni

ff: 01492 575337*

e: affch@conwy.gov.uk



Post: Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Blwch Post 1, CONWY, LL30 9GN

Ymweld: Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, LL29 7AZ

Swyddfa ar agor:

9:00 to 17:00 Llun - Iau

9:00 to 16:45 Gwener

Neu ymwelwch â'n gwefan lle gallwch gael mynediad at rai o'n gwasanaethau, rhoi gwybod am broblem neu anfon cais atom:

www.conwy.gov.uk

*Tu allan i oriau swyddfa, bydd y neges ar y rhif hwn yn rhoi ein rhif ffôn argyfwng i chi.

Gallwn gynnig y canlynol i chi:

- Staff sy'n siarad Cymraeg a Saesneg
- gwasanaeth dehongli iaith Arwyddion Prydain
- gwybodaeth mewn Braille neu brint bras ar gais
- gwasanaeth cyfieithu ar gais os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf
- ystafell gyfweld breifat ar gyfer apwyntiadau os hoffech chi un
- lle parcio a chyfleusterau anabl

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, byddwn yn:

- ateb galwadau i'n llinell gyngor cyn gynted â phosibl – rydym fel arfer yn ateb galwadau o fewn 60 eiliad. Yn ystod cyfnodau prysur iawn, mae'n bosibl y bydd yn cymryd mwy o amser, ond byddwn yn eich hysbysu o'ch safle yn y ciw
- cynnig gwasanaeth ffonio'n ôl gan ein tîm cynghori
- ateb eich ymholiad ar y pwynt cyswllt cyntaf lle bynnag y bo hynny'n bosibl

- eich trosglwyddo i'r unigolyn cywir ar unwaith ar y ffôn, neu gymryd eich manylion a gofyn i rywun gysylltu â chi os nad ydym yn gallu ateb eich ymholiad
- cydnabod negeseuon e-bost at affch@conwy.gov.uk o fewn 1 diwrnod gwaith
- ymateb yn ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith. Os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn rhoi gwybod i chi'r rheswm dros yr oedi a phryd gallwch ddisgwyl ymateb llawn.

Gofynnwn i chi:

- ein parchu ni – ni fyddwn yn goddef ymddygiad neu iaith ddifriol tuag at ein staff
- ein helpu ni i'ch helpu chi drwy roi gwybodaeth gywir i ni
- rhoi gwybod i ni os oes gennych chi anghenion mynediad arbennig neu unrhyw anghenion eraill
- gofyn i ni egluro unrhyw beth nad ydych chi'n siŵr ohono
- rhoi gwybod i ni os ydych yn fodlon â'n gwasanaeth – mae sylwadau cadarnhaol yn ein helpu i weithio'n well i chi
- rhoi gwybod i ni os ydych yn anfodlon gyda'n gwasanaeth neu sut y gallwn ni wella

Rhandiroedd

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu:

Rydym yn darparu 12 o safleoedd rhandiroedd ar draws sir Conwy, ac yn cynnig plotiau o wahanol feintiau gan gynnwys plotiau wedi'u codi i ddarparu mynediad i bobl anabl.

Mae rhandiroedd yn rhoi cyfle i bobl dyfu eu bwyd eu hunain a mwynhau'r awyr agored.



Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni:

Byddwn yn:

- arolygu plotiau rhandiroedd i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn dda
- cynnal yr ardaloedd o amgylch y plotiau
- darparu cyngor a chyfarwyddyd i denantiaid rhandiroedd ar sut i reoli eu plot
- gosod plot rhandir i denant newydd o fewn pythefnos ar ôl iddynt ddod yn wag
- trefnu Fforwm Rhandiroedd lle gall cynrychiolwyr o bob un o'r safleoedd rhandiroedd gyfarfod i drafod eitemau o ddiddordeb.

Beth ydym ni'n gofyn i chi ei wneud?

- Rhoi gwybod i ni am unrhyw broblemau'n ymwneud â choed ar eich rhandir
- Ein helpu i ffurfio grwpiau cymunedol rhandiroedd
- Cynnal a chadw eich plot yn unol â thelerau ac amodau eich tenantiaeth
- Rhoi gwybod i ni os oes gennych chi ddiddordeb mewn cael plot rhandir
- Rhoi adborth i ni ar sut y gallwn ni wella

Cysylltwch â ni

e: erf@conwy.gov.uk

gwefan: [Rhandiroedd](#)

ff: **01492 575337**

Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau

Gwasanaethau Profedigaeth

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn darparu ac yn cynnal a chadw 11 o fynwentydd ac un amlogfa yn sir Conwy.

Rydym yn cynnig claddedigaethau coetir yn Llanfairfechan a Phenmaenmawr gan ddefnyddio deunyddiau naturiol i gladdu a phlannu coeden goffa ar y bedd.

Rydym yn darparu angladdau amlosgi neu gladdu am ddim i fabanod a phlant dan 16 oed.

Rydym yn aelod o 'Siarter y Galarwyr' sy'n dangos ein bod yn ymrwmo i ddarparu gwasanaeth rhagorol a bodloni safonau uchel ar gyfer claddedigaethau, amlosgiadau ac angladdau. Rydym hefyd yn aelod o'r Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlogsfeydd a'r Ffederasiwn Awdurdodau Claddu ac Amlosgi.

Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Byddwn yn:

- darparu gwasanaeth claddu ac amlosgi proffesiynol a sensitif
- cynnal amlogfa ddiogel, ecogyfeillgar a gaiff ei chynnal yn dda
- sicrhau fod ein mynwentydd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda
- archwilio cerrig beddi bob 5 mlynedd i sicrhau eu bod yn ddiogel
- darparu ystod o gofebion fforddiadwy
- darparu amlosgiadau uniongyrchol
- darparu angladdau personol wedi'u teilwra
- cynnig teyrngedau sain neu weledol a gwe-ddarlledu am ddim
- cynnal a chadw'r Ardd Goffa i Blant a Babanod a Gardd y Cofio
- ymgynghori gyda'n cwsmeriaid bob blwyddyn a defnyddio eu hadborth i'n helpu ni i wella

Cysylltwch â ni

ff: 01492 577731

e: gwasanaethauprofedigaeth@conwy.gov.uk
Amlogfa Bae Colwyn, Bron y Nant Road, LL28 4YN

Yr oriau agor yw:

8.30 i 16:30 Llun - Iau

8.30 i 16:00 Gwener

Mae gwasanaeth archebu awtomataidd ar gyfer trefnwyr angladdau ar benwythnosau.

Beth ydym ni'n gofyn i chi ei wneud?

- Defnyddio'r cyfleusterau yn y mynwentydd a'r amlogfa yn gyfrifol
- Bod yn ystyriol o ddefnyddwyr eraill
- Rhoi gwybod am unrhyw broblemau yn y mynwentydd neu'r amlogfa
- Gwaredu unrhyw flodau neu deyrngedau eraill yn y biniau a ddarperir yn dilyn cyfnod priodol
- Parcio eich cerbyd yn gyfrifol ym meysydd parcio'r amlogfa neu'r fynwent



FBCA
Federation of Burial
& Cremation Authorities


ICCM

Pontydd a waliau cynnal

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn gyfrifol am reoli a chynnal a chadw 283 o bontydd a 587 o waliau cynnal ar draws sir Conwy.

Rydym yn sicrhau fod pontydd a waliau cynnal yn ddiogel ac yn ateb y diben drwy ymgymryd ag archwiliadau rheolaidd i nodi peryglon a diffygion.



Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Byddwn yn:

- archwilio bob pont a wal cynnal yn unol â'r codau a'r safonau perthnasol
- archwilio asedau strwythurol bob dwy flynedd
- ymdrin â diffygion peryglus y down o hyd iddynt drwy ein rhaglen archwilio neu y rhoir gwybod i ni amdanynt gan y cyhoedd ar unwaith
- ymgymryd ag asesiadau i wirio cryfder y pontydd a'r waliau cynnal
- rheoli symudiad llwythi anarferol yn y sir
- ymgymryd â gwaith cynnal a chadw arfaethedig ac ymatebol ar bontydd a waliau cynnal gan gynnwys atgyweirio gwaith maen a choncrid, cryfhau strwythurau ac ailadeiladu

Beth ydym ni'n gofyn i chi ei wneud?

- Rhoi gwybod am unrhyw bryderon mewn perthynas â phontydd a waliau cynnal yn sir Conwy
- Rhoi gwybod am gerbydau sydd dros eu pwysau ac yn teithio dros bontydd gyda chyfyngiadau pwysau
- Rhoi adborth ar sut y gallwn wella ein gwasanaethau i chi

Cysylltwch â ni

e: erf@conwy.gov.uk

ff: 01492 575337

Rheoli'r Arfordir, Perygl Llifogydd a Draenio Tir

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rheoli'r Arfordir

Rydym yn archwilio ac yn cynnal a chadw 13.7 milltir o amddiffynfeydd môr y Cyngor ac yn arolygu ein traethau ddwywaith y flwyddyn i sicrhau fod lefelau traethau yn cael eu cynnal i ddiogelu trefi arfordirol rhag llifogydd.

Rheoli Perygl Llifogydd

Rydym yn gyfrifol am sicrhau fod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol i reoli llifogydd yn y sir. Mae hyn yn cynnwys rheoleiddio cyrsiau dŵr arferol (megis afonydd, nentydd, ffosydd, draeniau, toriadau,

cwlffertau (rhannau â phibellau), deiciau, llifddorau a llwybrau)

Rydym yn cynnig cyngor ar ddraeniau a charthffosydd preifat, ac ar yr effeithiau perygl llifogydd a draenio tir y mae datblygiadau arfaethedig yn eu cael. Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am ddraeniau a charthffosydd preifat a rannir.

Draenio Tir

Rydym yn cynnig cyngor a chyfarwyddyd i breswylwyr ar broblemau'n ymwneud â draenio tir a pherygl llifogydd.



Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Byddwn yn:

- nodi, archwilio a rheoli perygl llifogydd
- archwilio a chynnal amddiffynfeydd llifogydd y Cyngor ac ymgymryd â gwaith brys
- gosod a gwaredu amddiffynfeydd llifogydd ar hyd arfordir Conwy i leihau'r risg o lifogydd arfordirol
- arolygu traethau ddwywaith y flwyddyn ac adfer lefelau traethau pan maent yn disgyn yn is na'r lefelau gosodedig
- cynnig cyngor a chyfarwyddyd ar sut gallwch ddiogelu eich eiddo rhag llifogydd
- gweithio gyda chymunedau a effeithir gan lifogydd ac ymgynghori ar waith arfaethedig i reoli'r perygl llifogydd
- cynnig cyngor a chyfarwyddyd ar ddraenio tir
- rheoleiddio cyrsiau dŵr arferol (megis afonydd, nentydd, ffosydd, draeniau, toriadau, cwlfertau, deiciau, llifddorau a llwybrau)
- rhoi cyngor a chaniatâd i systemau dŵr wyneb, a mabwysiadu a chynnal a chadw systemau sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo
- glanhau ac archwilio gyliau priffyrdd bob blwyddyn



Beth ydym ni'n gofyn i chi ei wneud?

- Rhoi gwybod am unrhyw broblemau neu bryderon yn ymwneud â llifogydd cyn gynted â phosibl
- Gwirio draeniau a charthffosydd yr ydych yn gyfrifol amdanynt yn rheolaidd ac ymdrin ag unrhyw rwystrau i atal llifogydd
- Cynnal a chadw ffosydd neu gyrsiau dŵr ar eich tir a'u cadw'n glir o unrhyw rwystrau
- Diogelu eich eiddo drwy brynu cynnyrch atal llifogydd eich hunain
- Darparu gwybodaeth i ni am unrhyw hanes o lifogydd, megis lluniau neu adroddiadau
- Dod i adnabod eich cymdogion. Efallai y bydd arnynt angen eich cymorth, neu'n gallu gweithio gyda chi i glirio rhwystrau o gyrsiau dŵr ar eich tir
- Siarad â ni yn gynnar os ydych yn bwriadu ymgymryd â gwaith adeiladu sy'n fwy na 100m2 neu'n cynnwys mwy nag un eiddo, er mwyn i ni allu eich helpu chi gyda chynllun eich system dŵr wyneb.
- Siarad â ni os ydych chi'n bwriadu gwneud unrhyw waith i gwrs dŵr
- Rhoi adborth ar sut y gallwn wella ein gwasanaethau i chi

Cysylltwch â ni

e: erf@conwy.gov.uk

gwefan: [Llifogydd](#)

ff: 01492 575337

Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau

Tramffordd y Gogarth

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn cynnal yr unig dramffordd halio a gaiff ei thynnu gan gebl sy'n dal i redeg ar ffyrdd cyhoeddus Prydain, yn cario teithwyr o Llandudno i ben y Gogarth.

Mae'r dramffordd dreftadaeth wedi bod yn weithredol ers 1902 ac mae'n sefydliad unigryw a hanesyddol yn Llandudno.

Mae'r Dramffordd yn weithredol o ddiwedd mis Mawrth tan ddiwedd mis Hydref. Mae'n gweithredu 7 niwrnod yr wythnos, bob 20 munud rhwng 10am a 6pm (mae'r dramffordd yn cau am 5pm ym mis Mawrth a 4pm ym mis Hydref).

www.greatormetramway.co.uk/cy

Facebook: @GreatOrmeTramway

Cysylltwch â ni

ff: 01492 577877

e: tramwayenquiries@conwy.gov.uk

Gorsaf Fictoria, Church Walks,
Llandudno, Conwy, LL30 2NB

Opening hours are:

10:00 to 18:00 7 days a week

10:00 to 17:00 (March)

10:00 to 16:00 (Oct)



Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Byddwn yn:

- darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i bob un o'n cwsmeriaid drwy ein staff 'Llety'r Byd'
- cynnig gwasanaeth o leiaf bob 20 munud yn ystod oriau gweithredol
- cynorthwyo teithwyr gyda phroblemau symudedd
- ymgymryd â threfn cynnal a chadw bwrpasol llym i sicrhau diogelwch ein teithwyr
- cymryd archebion gan grwpiau ac ysgolion ar gyfer y Dramffordd, Mwyngloddiau Copr y Gogarth a Chanolfan Ymwelwyr y Parc Gwledig
- cynnal a chadw Gorsaf Victoria, yr Orsaf Hanner Ffordd a'r arddangosfa dreftadaeth
- cynnig casgliad o nwyddau Tramffordd y Gogarth

Beth ydym ni'n gofyn i chi ei wneud?

- Cyrraedd 15 munud cyn eich amser gadael os ydych chi wedi archebu fel grŵp
- Dilyn y cyfarwyddiadau a gewch gan ein staff er eich diogelwch
- Aros mewn ciw trefnus yn y gorsafoedd
- Aros yn eich sedd tra mae'r tram yn symud a chadw eich dwylo a'ch pen yn y tram
- Gwirio ein datganiad hygyrchedd os oes gennych chi unrhyw broblemau symudedd
- Deall nad ydym bob amser, fel atyniad treftadaeth, yn gallu darparu ar gyfer pramiau, cadeiriau olwyn neu sgwteri symudedd
- Dweud wrthym am eich profiad ar Dramffordd y Gogarth ar Trip Advisor, Facebook neu ein gwefan

Mannau Gwyrdd

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn cynnal parciau, gwarchodfeydd natur, mannau agored, 152 o feysydd chwarae ac ymylon ffyrdd y Cyngor ar draws y sir, gan sicrhau eu bod yn ddiogel, hygyrch, deniadol, glân ac yn llawn cyfleusterau.

Rydym yn anelu at gynnal a gwella amgylchedd naturiol y sir. Mae hyn yn cynnwys darparu rhagoriaeth arddwriaethol yn ein trefi a'n pentrefi, rheoli parciau Gwyrdd, Gwarchodfeydd Natur Lleol a darparu gwasanaethau ecolegol a chadwraeth bioamrywiaeth.

Rydym yn cynnal Canolfan Ymwelwyr y Gogarth sydd ar agor bob dydd rhwng mis Mawrth a mis Hydref.



Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Byddwn yn:

- cynnal a chadw ein mannau agored yn unol ag arferion garddwriaethol da
- archwilio a chynnal a chadw ein coed er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel
- ymateb i faterion yn ymwneud â diogelwch coed
- ymgymryd ag archwiliadau rheolaidd yn ein meysydd chwarae, campfeydd awyr agored a pharciau sglerio i sicrhau fod y cyfarpar mewn cyflwr da ac yn bodloni gofynion ieuchyd a diogelwch
- ymdrin â diffygion peryglus mewn meysydd chwarae ar unwaith
- hyrwyddo prosiectau mannau agored cymunedol y gallwch gymryd rhan ynddynt
- sicrhau y caiff cadwraeth ei reoli'n briodol mewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, gan weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru
- sicrhau fod bioamrywiaeth yn cael ei ystyried yn briodol wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor
- hyrwyddo digwyddiadau bioamrywiaeth y gallwch gymryd rhan ynddynt
- croesawu ysgolion sy'n ymweld â'n gwar-chodfeydd natur Lleol

Beth ydym ni'n gofyn i chi ei wneud?

- Mwynhau defnyddio ac archwilio ein hamgylchedd naturiol
- Annog bioamrywiaeth yn eich ardal leol
- Rhoi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw broblemau'n ymwneud â choed
- Clirio eich baw cŵn a'i roi yn y bin neu ei gario adref gyda chi. Gallwch roi baw cŵn mewn biniau gwastraff cŵn neu finiau sbwriel
- Cario eich sbwriel adref gyda chi neu ei roi yn un o'n biniau sbwriel
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw ddiffygion neu bryderon diogelwch yn ein meysydd chwarae
- Cadw at yr is-ddeddfau lleol a bod yn ystyriol wrth ddefnyddio Gwarchodfeydd Natur Lleol
- Ein helpu i ffurfio grwpiau cymunedol a chyfeillion yn eich ardal leol

Cysylltwch â ni

e: erf@conwy.gov.uk

gwefan: [Mannau Gwyrdd](#)

ff: 01492 575337

Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau

Porthladdoedd a'r Arfordir

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn rheoli a chynnal a chadw angorfeydd, pontynau, glanfeydd a llithrfeydd ym mhorthladdoedd Conwy a Llandrillo-yn-Rhos ac yn gweinyddu trwyddedau angori. Rydym yn cynnal y cymorth mordwyaeth ym mhorthladd Conwy a'i sianel ddynesu.

Rydym yn rheoli defnydd hamdden a thwristiaeth y traethau, promenadau a'r blaendraethau ar hyd y 45 milltir (73 cilometr) o arfordir yn y sir, gan gynnwys gweithgareddau dŵr a llanw.

Rydym yn rheoli a monitro bob math o weithgareddau dŵr cyffredinol a chychod a gaiff eu lansio, gan gynnwys gwirio offer diogelwch ac yswiriant.

Rydym yn gyfrifol am reoli is-ddeddfau ac awdurdodi digwyddiadau ar bromenadau a thraethau Conwy. Rydym hefyd yn cydlynu ceisiadau ar gyfer y Faner Las a Gwobrau Glan Môr.



Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Byddwn yn:

- darparu amgylchedd diogel i bawb sy'n defnyddio'r porthladdoedd a'r arfordir
- darparu ymateb 24 awr y dydd i argyfyngau amgylcheddol megis gollyngiadau'r môr
- cynnal a chadw ac archwilio'r angorfeydd
- monitro llongau a rhoi gwybod i berchnogion os yw eu llong yn ymofyn sylw
- archwilio ein llithrfeydd yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'r cyhoedd eu defnyddio
- archwilio offer achub bywydau yn rheolaidd a'u newid pan fo angen
- ymateb i bryderon y cyhoedd ar unwaith lle bo hynny'n bosibl
- darparu cyngor a chyfarwyddyd i ddefnyddwyr porthladdoedd a'r arfordir
- darparu cymorth cyntaf sylfaenol ar y prif bromenadau yn ystod tymor yr haf
- cydlynu ceisiadau ar gyfer y Faner Las a Gwobrau Glan Môr
- daprau a chynnal a chadw offer diogelwch ar hyd yr arfordir a thua Dyffryn Conwy

Beth ydym ni'n gofyn i chi ei wneud?

- Rhoi gwybod am unrhyw beth anniogel neu unrhyw beth sydd angen ein sylw (megis bwi- au achub ar goll)
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw beth amheus yn ein porthladdoedd ac ar hyd yr arfordir
- Rhoi gwybod am unrhyw orlif olew neu fateri- on amgylcheddol eraill
- Parchu cyfreithiau ac is-ddeddfau'r porthlad- doedd a'r arfordir
- Sicrhau eich bod yn cofrestru ac yn talu un- rhyw ffioedd mewn pryd

Cysylltwch â ni

e: erf@conwy.gov.uk
gwefan: [Porthladdoedd](https://www.conwy.gov.uk/porthladdoedd)
ff: **01492 575337**

Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn trefnu cludiant i'r ysgol a'r coleg ar gyfer disgyblion a myfyrwyr cymwys. Rydym yn defnyddio bysiau, bysiau mini, tacsis neu geir ac yn defnyddio'r llwybrau mwyaf priodol i sicrhau gwerth am arian.

Rydym yn rheoli cynorthwywyr teithwyr sy'n teithio gyda myfyrwyr, ac yn sicrhau eu bod yn derbyn hyfforddiant priodol ac yn dilyn gweithdrefnau i gadw disgyblion yn ddiogel.



Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Byddwn yn:

- darparu gwasanaeth cludiant ysgol effeithiol a chydlynol
- darparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i fodloni anghenion dynodedig disgyblion
- helpu myfyrwyr i wneud y mwyaf o'r ysgol neu goleg
- cyfathrebu gyda rhieni, gwarcheidwaid ac ysgolion
- sicrhau fod gyrwyr a chynorthwywyr teithwyr wedi derbyn gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn gweithio gyda disgyblion dan 16 oed

Beth ydym ni'n gofyn i chi ei wneud?

- Cofrestru ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol gyda'r gwasanaethau addysg cyn i'r tymor newydd ddechrau
- Sicrhau fod y wybodaeth am ddisgyblion yn gywir pan fyddwch yn cofrestru
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch manylion personol cyn gynted â phosibl

Cysylltwch â ni

e: erf@conwy.gov.uk

gwefan: [Cludiant Ysgol](#)

ff: 01492 575337

Parcio

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn gyfrifol am reoli parcio ar y stryd a darparu a rheoli 42 o feysydd parcio ar draws sir Conwy. Mae hyn yn cynnwys 6 o barciau coetsis a phwyntiau gollwng/casglu.

Rydym yn cynnig trwyddedau parcio blynyddol ar gyfer meysydd parcio a thrwyddedau parcio ar y stryd a thrwyddedau preswylwyr mewn rhai ardaloedd. Gallwn hefyd ddarparu goddefebau parcio er mwyn galluogi cerbydau gwaith i gael eu heithrio o'r gofynion parcio.

Rydym hefyd yn rheoli tollffordd Marine Drive, llwybr golygfaol 5 milltir o amgylch y Gogarth yn Llandudno.



Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Byddwn yn:

- Archwilio meysydd parcio i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn ateb y diben
- Cynnal a chadw peiriannau talu ac arddangos yn ddyddiol
- Darparu ardaloedd gollwng/casglu ar gyfer coetsis a maes parcio mawr i goetsis dros nos gyda thoiledau a chyfleusterau ymolchi yn Llandudno
- Cynnal a chadw Tollffordd Marine Drive er mwyn sicrhau mynediad drwy'r amser
- Cadw traffig yn symud, cadw ffyrdd yn ddiogel a sicrhau fod lleoedd parcio ar gael, drwy gyflwyno rhybuddion talu cosb i gerbydau sy'n torri cyfyngiadau parcio
- Gweithredu ar geisiadau i orfodi cyfyngiadau megis lleoedd parcio anabl i breswylwyr, patrolau ysgol, gorsafoedd bws a safleoedd tacsis
- Darparu gwasanaeth taliadau 24 awr ar gyfer rhybuddion talu cosb
- Ymateb yn ysgrifenedig i heriau parcio o fewn cyfnod o 14 diwrnod

Beth ydym ni'n gofyn i chi ei wneud?

- Parcio yn unol â'r gyfraith â Rheolau'r Ffordd Fawr a chydymffurfio â chyfyngiadau parcio
- Rhoi gwybod i ni os yw eich cerbyd yn torri cyfyngiadau parcio ac os nad ydych yn gallu ei symud
- Ymgeisio am oddefeb parcio os oes rhaid i gerbydau neu faniau gwaredu gael mynediad i'ch safle drwy barcio'n anghyfreithlon
- Rhoi gwybod am beiriannau neu arwyddion sydd angen eu trwsio
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw ddigwyddiadau rydych yn eu trefnu yn eich ardal
- Ysgrifennu atom a darparu tystiolaeth os oes arnoch chi eisiau herio rhybudd tâl cosb

Cysylltwch â ni

e: erf@conwy.gov.uk

gwefan: Parcio

ff: **01492 575337**


Toiledau Cyhoeddus

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn darparu 52 o doiledau cyhoeddus ar draws y sir. Caiff y cyfleusterau eu glanhau'n ddyddiol, saith niwrnod yr wythnos.

Mae ein toiledau ar agor bob dydd, drwy'r flwyddyn, gan eithrio Dydd Nadolig a Dydd Calan mewn rhai lleoliadau.

Mae'r Cynllun Toiledau Cymunedol yn gynllun gan Lywodraeth Cymru sy'n annog busnesau lleol i agor eu cyfleusterau toiledau i'r cyhoedd.



Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Byddwn yn:

- Glanhau'r toiledau'n ddyddiol
- Ymateb i broblemau ynghylch glanweithdra a gwaith atgyweirio o fewn 24 awr
- Archwilio ein toiledau i sicrhau ein bod yn cynnal glanweithdra o safon uchel
- Darparu toiledau cyhoeddus sy'n hygyrch i bawb, lle bo hynny'n bosibl
- Gwella ein cyfleusterau yn unol â'r gyllideb
- Hyrwyddo Cynllun Toiledau Cymunedol ac annog busnesau lleol i gytuno iddo
- Darparu gwybodaeth i chi ynghylch lleoliadau toiledau cyhoeddus, pa gyfleusterau sydd ar gael yno ac a oes rhaid talu

Beth ydym ni'n gofyn i chi ei wneud?

- Defnyddio'r cyfleusterau'n gyfrifol
- Ymddwyn yn gwrtais ac yn barchus gyda'n staff
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw broblemau mewn perthynas â glanweithdra neu unrhyw waith atgyweirio
- Rhoi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol

Cysylltwch â ni

e: erf@conwy.gov.uk

gwefan: [Toiledau](#)

ff: 01492 575337

Glanhau Strydoedd

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn gyfrifol am lanhau strydoedd, ffyrdd, parciau a mannau agored y Cyngor yn y sir.

Rydym yn gwagu biniau sbwriel, glanhau sbwriel a baw cŵn, gwaredu tipio anghyfreithlon ac yn glanhau palmentydd yng nghanol trefi.

Rydym yn cydymffurfio â'r safonau a amlinellir yn y Cod Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff (Rhan 4 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990).



Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Byddwn yn:

- Glanhau strydoedd, parciau a mannau agored
- Brwsio ffyrdd gwledig yn ôl yr angen i atal dail rhag cronni
- Darparu biniau glân a diogel a gaiff eu cynnal a'u cadw yn dda ar gyfer sbwriel a baw cŵn
- Ymateb i adroddiadau sbwriel ar unwaith
- Nodi a thargedu ardaloedd problemus o ran sbwriel
- Gweithio gyda chi, **Cadwch Gymru'n Daclus** a grwpiau cymunedol lleol, i gadw eich ardal yn glir o sbwriel
- Archwilio ein strydoedd i sicrhau ein bod yn cynnal glanweithdra o safon uchel
- Ymdrin ag anifeiliaid sydd wedi marw ar ochr ffyrdd ar unwaith ac mewn modd sensitif
- Gwaredu tipio anghyfreithlon o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl i ni gael gwybod amdano
- Gwaredu nodwyddau hypodermig o fewn 1 diwrnod gwaith
- Trefnu i gael gwared â graffiti o fewn 4 diwrnod gwaith
- Darparu cyfarpar casglu sbwriel y gall

trigolion eu benthyg

- Dod o hyd i ffyrdd i gynyddu cyfleoedd ailgylchu wrth i bobl deithio o un lle i'r llall

Beth ydym ni'n gofyn i chi ei wneud?

- Clirio eich baw cŵn a'i roi yn y bin neu ei gario adref gyda chi. Gallwch roi baw cŵn mewn biniau gwastraff cŵn neu finiau sbwriel
- Taflu eich sbwriel yn gyfrifol a defnyddio'r biniau ailgylchu pan fyddant ar gael
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw broblemau mewn perthynas â sbwriel neu graffiti
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw achosion o dipio anghyfreithlon
- Rhoi gwybod am gelfi stryd neu finiau sbwriel sydd wedi torri
- Peidio â gadael torion gwrychoedd neu fwd ar y ffyrdd
- Peidio â rhoi gwastraff y cartref ym miniau sbwriel y stryd

Cysylltwch â ni

e: erf@conwy.gov.uk

gwefan: Glanhau Strydoedd

ff: **01492 575337**

Goleuadau Stryd

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn anelu at ddarparu goleuadau stryd priodol i gadw cerbydau a cherddwyr yn ddiogel yn ystod y nos, lleihau trosedd a lleihau ofn troseddu.

Rydym yn gofalu am dros 16,000 o oleuadau stryd, 2500 o folardiau ac arwyddion a gaiff eu goleuo a 60 o systemau rheoli traffig, megis manau croesi i gerddwyr.



Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Byddwn yn:

- Darparu rhwydwaith priffyrdd gyda goleuadau diogelwch i ddefnyddwyr, gyda'r nod o leihau nifer y damweiniau sy'n digwydd yn ystod y nos
- Archwilio goleuadau ac arwyddion a gaiff eu goleuo yn ystod y nos yn rheolaidd er mwyn nodi a threfnu unrhyw waith atgyweirio
- Cynnal a chadw ein goleuadau stryd i safon dderbyniol
- Newid polion lamp diffygiol yn unol â'r gyllideb sydd ar gael
- Atgyweirio goleuadau stryd o fewn cyfartaledd o 5 diwrnod gwaith
- Rhoi gwybod i'r cwmni trydan lleol am unrhyw ddiffygion yn y cyflenwad trydan

Beth ydym ni'n gofyn i chi ei wneud?

- Rhoi gwybod i ni am unrhyw broblemau mewn perthynas â goleuadau stryd ac arwyddion a gaiff eu goleuo; dolen i'r porthol Rhoi Gwybod
- Bod mor fanwl â phosibl wrth roi gwybod i ni am leoliadau'r diffygion
- Deall mai'r cwmni trydan lleol sy'n ymdrin ag unrhyw ddiffygion yn y cyflenwad trydan ac nad oes gennym ni unrhyw reolaeth dros yr amserlenni ar gyfer y mathau hyn o waith atgyweirio

Cysylltwch â ni

e: erf@conwy.gov.uk

gwefan: [Goleuadau Stryd](#)

ff: **01492 575337**

Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau

Cludiant Cyhoeddus

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn rhoi cymhorthdal i lwybrau bysiau pwysig ac yn gweithio gyda chwmnïau bysiau i sicrhau fod gwasanaethau hanfodol yn cael eu cynnal.

Rydym yn cyhoeddi Canllawiau Cludiant Cyhoeddus Conwy bob 6 mis sy'n cynnwys amserlenni bws cyfredol a'r wybodaeth ddiweddaraf am deithio.

Rydym yn rheoli'r cynllun Cerdyn Bws Consesiynol i bobl sy'n hŷn na 60 oed neu bobl anabl sy'n byw yn sir Conwy, gan gyflwyno tocynnau newydd.



Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Byddwn yn:

- Diweddarau Canllawiau Cludiant Cyhoeddus Conwy yn rheolaidd
- Cyflwyno Tocynnau Bws Consesiynol o fewn 10 diwrnod gwaith
- Trefnu gwaith atgyweirio i orsafoedd a llochesi bws

Beth ydym ni'n gofyn i chi ei wneud?

- Gwnewch gais am eich Tocyn Bws Gostyngol ar-lein neu wyneb yn wyneb yn swyddfa Coed Pella
- Gwirio fod gennych yr holl wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom i brosesu eich cais am Docyn Bws Consesiynol
- Darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwn amdani er mwyn i ni allu prosesu eich cais am Docyn Bws Consesiynol

Cysylltwch â ni

e: erf@conwy.gov.uk

gwefan: [Cludiant Cyhoeddus](#)

ff: 01492 575337

Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau

Gwasanaethau Ailgylchu a Gwastraff: Masnachol

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn darparu gwasanaeth cynhwysol, dibynadwy a phroffesiynol ar gyfer digwyddiadau untro ac ar gyfer busnesau sy'n ymofyn casgliadau rheolaidd

Gallwn gasglu eich gwastraff bwyd, gwydr, papur, caniau, plastig a chardbord i'w hailgylchu.



Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Byddwn yn:

- darparu pecyn gwasanaeth casgliadau ailgylchu a gwastraff dibynadwy i chi
- rhoi cymorth ar reoli ailgylchu a gwastraff
- eich helpu i ailgylchu mwy a gwastraffu llai
- darparu cynwysyddion priodol ar gyfer eich gwastraff ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth
- dychwelyd cyn gynted â phosibl os byddwn wedi methu eich casgliad
- darparu cynwysyddion o fewn 5 diwrnod gwaith i arwyddo'r contract gwasanaeth
- darparu hysbysiad trosglwyddo gwastraff a reolir

Beth ydym ni'n gofyn i chi ei wneud?

- Peidio â rhoi unrhyw wastraff y gellir ei ailgylchu yn eich bin gwastraff cyffredinol
- Cadw gwastraff masnachol a gwastraff y cartref ar wahân
- Peidio â gadael bagiau ychwanegol o wastraff wrth eich biniau
- Sicrhau fod caead eich biniau wedi cau
- Sicrhau fod eich biniau sbwriel a biniau ailgylchu ar gael a bod modd cael mynediad atynt erbyn 7am
- Rhoi gwybod am gasgliadau a fethwyd cyn gynted â phosibl
- Cadw at delerau'r contract
- Rhoi rhybudd o 28 diwrnod i ni os ydych yn dymuno dod â'r gwasanaeth i ben

Cysylltwch â ni

e: erf@conwy.gov.uk

gwefan: [Gwastraff - Masnachol](#)

ff: 01492 575337

Gwasanaethau Ailgylchu a Gwastraff: Y Cartref

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Ein nod yw ei gwneud yn hawdd i bobl sy'n byw yng Nghonwy fod yn gynaliadwy ac ailgylchu gymaint â phosibl.

Rydym yn darparu casgliadau ailgylchu wythnosol ar gyfer gwastraff bwyd, papur, cardbord, gwydr, caniau, cynwysyddion plastig, cartonau diodydd a batris. Rydym yn darparu casgliadau tecstilau ac eitemau trydanol bob pythefnos, gyda'n partner, Cydweithfa Crest. Rydym yn casglu gwastraff na ellir ei ailgylchu bob pedair wythnos.

Rydym yn casglu cynnyrch clytiau ac anymataliaeth yn wythnosol ar gyfer preswylwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn.

Rydym yn cynnig casgliadau â chymorth i breswylwyr nad ydynt yn gallu symud eu cynwysyddion gwastraff.

Rydym yn cynnig casgliadau gwastraff swmpus rhad ar gyfer eitemau mawr, gyda'n partner, Cydweithfa Crest.

Rydym yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff gardd ar danysgrifiad ac yn gwerthu biniau compostio cartref am bris gostyngol.

Rydym hefyd yn rheoli canolfannau ailgylchu ym Mochdre ac Abergele, sydd ar agor 7 diwrnod yr wythnos, ac yn gweithio gyda Hosbis Dewi Sant i ailddefnyddio eitemau drwy eu Siop Ailddefnyddio ym Mochdre.



Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Byddwn yn:

- darparu cynwysyddion priodol ar gyfer eich gwastraff ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu
- casglu ailgylchu a gwastraff y cartref ar ymyl y palmant neu o'ch pwynt casglu dynodedig
- darparu calendr casgliadau gwastraff ac ailgylchu i chi a rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth
- anelu at ddychwelyd o fewn 48 awr os byddwn wedi methu eich casgliad
- sicrhau y caiff cynwysyddion eu dychwelyd i'r pwynt casglu yn daclus
- trefnu i eitemau swmpus gael eu casglu o fewn pythefnos i'ch taliad
- atgyweirio neu newid cynwysyddion sydd wedi torri
- rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wastraffu llai ac ailgylchu mwy
-

Beth ydym ni'n gofyn i chi ei wneud?

- Peidio â rhoi unrhyw wastraff y gellir ei ailgylchu yn eich bin gwastraff cyffredinol
- Trefnu eich ailgylchu i'r cynwysyddion cywir
- Gofyn am gynwysyddion ailgylchu ychwanegol os oes arnoch chi angen mwy o le i ailgylchu
- Peidio â gadael bagiau ychwanegol o wastraff wrth eich biniau
- Sicrhau fod caead eich biniau wedi cau
- Rhoi eich cynwysyddion gwastraff ac ailgylchu allan cyn 7am, i sicrhau eu bod yn cael eu casglu
- Peidio â gadael eich cynwysyddion ailgylchu neu eich biniau allan dros nos yn ystod tywydd garw, megis gwyntoedd cryfion neu eira
- Symud eich cynwysyddion yn ôl o fewn ffiniau eich eiddo ar y diwrnod casglu
- Rhoi gwybod am gasgliadau a fethwyd cyn gynted â phosibl
- Mynd ag eitemau trwm i'n Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn hytrach na'u rhoi nhw yn y bin


Ffyrdd a phalmentydd

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn gyfrifol am gynnal a chadw ffyrdd a phalmentydd mabwysiedig yn y sir yn unol â Deddf Priffyrdd 1980. Rydym hefyd yn rheoli rhwydwaith 1056 milltir y Cyngor o hawliau tramwy cyhoeddus ac yn annog y cyhoedd i'w mwynhau nhw.

Rydym yn archwilio ffyrdd, palmentydd a llwybrau troed yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel. Rydym yn cwblhau gwaith cynnal a chadw gan gynnwys rhoi wyneb newydd ar ffyrdd, gosod cwrbin newydd, trin chwyn, torri llystyfiant a gosod arwyddion a marciau ffordd newydd.

Yn y gaeaf, mae ein fflyd o gerbydau graeanu yn graeanu'r llwybrau pwysicaf, gan gynnwys priffyrdd, prif llwybrau bysiau a llwybrau gwasanaethau brys. Rydym yn darparu biniau graean mewn ardaloedd trefol a gwledig sydd ar gael i drigolion eu defnyddio, ac rydym yn eu hail-lenwi yn ôl yr angen.



Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Byddwn yn:

- Archwilio ffyrdd a llwybrau troed a chwblhau gwaith atgyweirio hanfodol
- Ymdrin â damweiniau ac argyfyngau y rhoir gwybod i ni amdanynt ar y priffyrdd ar unwaith
- Ymdrin â diffygion peryglus ar ffyrdd y rhoir gwybod i ni amdanynt ar unwaith
- Trin chwyn a thorri llystyfiant ar ein rhwydwaith ffyrdd
- Sicrhau fod y mwyafrif o hawliau tramwy cyhoeddus yn parhau i fod yn hawdd i'w defnyddio
- Darparu digwyddiadau cerdded a chefnogi Cerdded Conwy Walks i drefnu rhaglenni a gwyliau cerdded
- Trin y llwybrau pwysicaf ar ffyrdd gwledig a ffyrdd cefn ymlaen llaw cyn rhew ac eira. Mae'r llwybrau hyn yn cynnwys llwybrau i drefi a phentrefi, mynediad i ysgolion a'r gwasanaethau brys.
- Darparu biniau graean ar elltydd serth a chyffyrdd prysur ar gyfer preswylwyr.

- Adnewyddu a disodli marciau ffordd ac arwyddion sydd wedi gwisgo

Beth ydym ni'n gofyn i chi ei wneud?

- Defnyddio'r biniau graean sydd ar gael ar ffyrdd serth a chyffyrdd prysur yn ystod tywydd oer
- Rhoi gwybod am beryglon ar rwydwaith y priffyrdd a llwybrau troed
- Cynnal a chadw unrhyw wrychoedd neu goed ar eich tir i sicrhau nad ydynt yn rhwystro ffordd, palmant neu lwybr troed.
- Peidio â gadael torion gwrychoedd neu fwd ar y ffyrdd
- Cynnal a chadw ffosydd ar eich tir a glanhau griliau a thyllau sy'n dal deunydd
- Defnyddio hawliau tramwy cyhoeddus mewn modd ystyriol a chwrtais

Cysylltwch â ni

e: erf@conwy.gov.uk

gwefan: [Ffyrdd a phalmentydd](#)

ff: **01492 575337**

Gwaith Stryd


Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu

Rydym yn gyfrifol am gydlyn gweithgareddau ar ffyrdd a phalmentydd drwy gwmnïau cyfleustodau, contractwyr ac eraill. Mae hyn yn cynnwys gwaith ffordd, digwyddiadau, sgipiau a sgaffaldiau.

Rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau cyn lleied o anghyfleustra â phosibl a sicrhau fod cwmnïau cyfleustodau a chontractwyr eraill yn diogelu'r cyhoedd rhag peryglon ac yn gwneud eu gwaith i safon uchel.

Rydym yn trwyddedu unrhyw weithgarwch ar y priffyrdd, megis sgipiau, sgaffaldau, digwyddiadau a chau ffyrdd.

Rydym hefyd yn sicrhau fod ffyrdd ystadau tai newydd neu newidiadau eraill i ffyrdd yn cael eu hadeiladu'n gywir cyn eu mabwysiadu.



Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Byddwn yn:

- sicrhau ein bod ond yn rhoi ein caniatâd i gontractwyr cymwys weithio ar y priffyrdd. Mae gan gwmnïau cyfleustodau hawl cyfreithiol i weithio ar y priffyrdd
- gwneud ein gorau i sicrhau cyn lleied o oedi â phosibl i draffig drwy gydlyn gwaith a gweithgarwch eraill ar y priffyrdd
- cadw cofrestr o waith ar y priffyrdd
- sicrhau fod gwybodaeth am waith ffyrdd mor gywir â phosibl drwy gyflwyno dirwyon i unrhyw un sy'n darparu gwybodaeth anghywir
- sicrhau fod cwmnïau cyfleustodau a chontractwyr eraill yn cwblhau eu gwaith mewn amser rhesymol, a chodi tâl arnynt os nad ydynt yn gwneud hynny
- archwilio sampl o waith y cwmni cyfleustodau, i sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn cyrraedd safon uchel, a mynd i'r afael â'r mater os ddim
- sicrhau ein bod ond yn cau ffordd os nad yw'n ddiogel i'w ddefnyddio yn ystod y

digwyddiad neu'r gwaith, neu os yw cau'r ffordd yn golygu llai o anghyfleustra ar y cyfan

- sicrhau fod gwaith adeiladu ffyrdd newydd yn bodloni safon dderbyniol i'w mabwysiadu

Beth ydym ni'n gofyn i chi ei wneud?

- Rhoi gwybod am unrhyw broblemau mewn perthynas â gorchuddion tyllau archwilio
- Rhoi gwybod am unrhyw waith ffordd lle rydych yn amau nad oes ganddynt ganiatâd neu eu bod yn beryglus (er enghraifft, dim bariau na goleuadau)
- Os ydych yn llogi sgip neu sgaffaldiau, dylid caniatáu digon o amser i'r cwmni wneud cais am drwydded
- Os ydych wedi llogi sgip ar eich dreif, peidiwch â'i symud allan i'r stryd
- Peidio â rhoi unrhyw beth ar y ffordd neu'r palmant heb ganiatâd
- Rhoi gwybod i ni os ydych yn trefnu digwyddiad neu barêd a fydd yn cael effaith ar ffyrdd neu balmentydd

Cysylltwch â ni

e: erf@conwy.gov.uk

gwefan: [Gwaith Stryd](#)

ff: 01492 575337

Rheoli traffig a diogelwch ar y ffyrdd

Y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu



Rydym yn gyfrifol am leihau tagfeydd traffig, lle bo hynny'n ymarferol ac yn fforddiadwy.

Rydym yn cyflawni mân waith megis arwyddion a marciau ffordd er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd.

Rydym yn dibynnu ar gyllid gan Lywodraeth Cymru i wneud gwaith mawr i wella diogelwch ar y ffyrdd ac yn ceisio am y cyllid hwn bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu gwelliannau a fydd yn lleihau nifer y damweiniau mewn lleoliadau sydd â thystiolaeth sylweddol o wrthdrawiadau sy'n arwain at anafusion. Rydym yn dadansoddi gwrthdrawiadau dros y tair blynedd diwethaf er mwyn blaenoriaethu ein cynigion ar gyfer cyllid bob blwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth o'r gronfa ddata genedlaethol, yn hytrach na cheisiadau gan gymunedau.

Rydym yn cynnig addysg, hyfforddiant, cyngor a gwybodaeth ymarferol am ddiogelwch ar y ffyrdd i ddefnyddwyr ffyrdd, gan gynnwys kerbcraft a hyfforddiant seiclo i blant, cyrsiau PassPlus i yrwyr ifanc, a gweithdai ac asesiadau i yrwyr hŷn.

Rydym yn sicrhau fod cynigion ar gyfer datblygiadau newydd a ffyrdd newydd yn ddiogel, yn gynaliadwy ac na fyddant yn achosi tagfeydd traffig sylweddol.

Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Byddwn yn :

- gwneud ein gorau i atal gwrthdrawiadau a thagfeydd drwy wella ein ffyrdd, rheoleiddio sut y cânt eu defnyddio a darparu cyngor i'r rheiny sy'n eu defnyddio, o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni
- dadansoddi ystadegau gwrthdrawiadau traffig i ddarganfod a oes unrhyw beth penodol yn achosi damweiniau mewn lleoliadau penodol
- ceisio lleihau'r perygl o ddefnyddwyr diamddiffyn neu ddefnyddwyr risg uchel yn profi damweiniau drwy ddarparu addysg, hyfforddiant, cyngor a gwybodaeth
- atal y risg o ddamweiniau neu dagfeydd yn sgil datblygiadau neu ffyrdd newydd drwy sicrhau eu bod yn cael eu cynllunio a'u hadeiladu'n briodol
- Darparu gwybodaeth am deithio llesol (megis cerdded neu seiclo)

Beth ydym ni'n gofyn i chi ei wneud?

- Sicrhau eich bod yn gyrru ac yn parcio'n ddiogel, yn cadw at reoliadau traffig a Rheolau'r Ffordd Fawr
- Annog defnyddwyr ffyrdd diamddiffyn neu risg uchel yr ydych chi'n eu hadnabod i dderbyn hyfforddiant, cyngor a gwybodaeth gennym (megis eich plentyn, eich ysgol leol, gyrrwr hŷn).
- Gwneud eich rhan i leihau tagfeydd traffig drwy ddefnyddio trênn neu fws, seiclo neu gerdded yn hytrach na defnyddio eich car, hyd yn oed os yw hynny ond ar gyfer rhan o'ch siwrnai.
- Bod yn wrthrychol, adeiladol a rhesymol wrth ofyn am welliannau
- Rhoi adborth adeiladol a rhesymol mewn ymgynghoriadau ynghylch datblygiadau newydd, ffyrdd newydd, gwelliannau i ffyrdd neu reoliadau traffig
- Deall ein bod yn dibynnu ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith mawr i wella diogelwch ar y ffyrdd

Cysylltwch â ni

e: erf@conwy.gov.uk

gwefan: [Traffig](#)

ff: 01492 575337